COLEG CAMBRIA

# POLISI A GWEITHDREFN AR GYFER DELIO Â BWLIO AC AFLONYDDU AR DDYSGWYR

| | |
|---|---|
| Enw'r Polisi: | Polisi a gweithdrefn ar gyfer delio â bwlio ac aflonyddu ar ddysgwyr |
| Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb: | 16/06/14 |
| Cyflwynwyd i'w Gymeradwyo: | 01/05/14 |
| Cymeradwywyd gan: | Grŵp Diogelu |
| Dyddiad cymeradwyo: | Tachwedd 2016 |
| Dyddiad Adolygu: | Tachwedd 2019 ymestyn tan 30/06/23 |
| Awdur: | Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr |

ysbrydoli • arloesi • llwyddo • inspire • innovate • succeed

## Cyflwyniad

Mae **bwlio'n** aml yn canolbwyntio ar nodwedd benodol yr unigolyn neu'r grŵp sy'n cael eu bwlio, fel eu rhyw, eu hoed, eu hil neu ethnigrwydd, eu crefydd neu eu cyfeiriadedd rhywiol. Ystyrir ymddygiad sy'n bwlio felly yn gwahaniaethu difrifol ar sail y nodwedd warchodedig honno. Fodd bynnag, nid yw pob math o fwlio yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, a chaiff hynny ei gydnabod hefyd.

Ymddygiad llafar, corfforol neu fel arall, gan un neu fwy o bobl sy'n cael ei ailadrodd, yw bwlio. Gall gael effaith negyddol sy'n parhau am oes, sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl i ddysgu a datblygu. Fel rheol, nid yw digwyddiad unigol yn cael ei ystyried yn fwlio er y gall wneud i'r unigolyn deimlo ei fod yn cael ei danseilio ar y pryd. Gall bwlio gynnwys galw enwau, gwawdio, gwatwar, bygwth, gwneud sylwadau neu awgrymiadau sarhaus, cicio, taro, gwthio, cymryd eiddo, cyffwrdd yn amhriodol, taenu straeon niweidiol neu anwiredd a dulliau eraill o ymddygiad annerbyniol.

Os yw unigolyn yn credu ei fod yn cael ei fwlio, hyd yn oed os nad yw rhai pobl yn cytuno, yna bydd barn yr unigolyn sy'n credu ei fod yn cael ei fwlio yn cael ei ystyried.

Gall **seibrfwlio** fod yn fwlio 'go iawn' sy'n digwydd ar-lein. Mae'n cynnwys negeseuon testun, negeseuon e-bost, negeseuon gwib, postio deunyddiau maleisus ar safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol neu anfon delweddau a fideos sarhaus neu ddiraddiol.

**Aflonyddu** yw ymddygiad diofyn sy'n effeithio ar urddas unigolyn ac yn ymwneud â'i oed, ei ryw, ei hil, ei anabledd, ei grefydd neu gredo, ei genedligrwydd, ei gyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu rhywedd. Gall fod yn ymddygiad parhaus neu'n ddigwyddiad unigol. Gall hefyd fod yn aflonyddu'n ymwneud â chanfyddiad am rywun neu ei gysylltu â nodwedd warchodedig benodol. Enghraifft o hyn fyddai unigolyn sydd wedi cael sylwadau homoffobaidd er nad ydyw yn hoyw neu hyd yn oed os yw'r unigolyn sy'n gwneud y sylwadau'n gwybod nad ydyw yn hoyw. Byddai hyn yn aflonyddu'n ymwneud â chanfyddiad am gyfeiriadedd rhywiol.

## Pwrpas

Mae Coleg Cambria yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd cefnogol, cyfeillgar, diogel a chadarnhaol lle gall unigolion ddysgu a datblygu mewn amgylchedd diogel a mwynhau'r profiad gorau posibl o goleg a dysgu yn y gwaith. Mae pawb yn haeddu cael eu trin gyda pharch a does neb yn haeddu dioddef bwlio neu aflonyddu. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob rhan o gymuned y Coleg:

- Pob un o safleoedd a chanolfannau allanol y coleg (gan gynnwys y rheiny ar safleoedd cyflogwyr)
- Dysgwyr sy'n Oedolion yn y Gymuned
- Dysgwyr Agored/O Bell
- Preswylwyr Hostel Coleg Cambria
- Pob dysgwr yn y gwaith
- Myfyrwyr ar brofiad gwaith

Nid yw Coleg Cambria yn goddef bwlio nac aflonyddu. Os ydyw'n digwydd, caiff y myfyrwyr eu hannog i ddweud am eu pryderon gan wybod y bydd digwyddiadau'n cael eu trin yn brydlon ac yn sensitif. Bydd pob honiad yn cael ei ymchwilio a chânt eu trin fel materion disgyblu lle gwelir bod hyn yn cael ei gyfiawnhau. Mae gweithdrefn ddisgyblu'r Coleg yn nodi sut i ymdrin â digwyddiadau. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Coleg gyfeirio'r mater at yr heddlu. Bydd unrhyw un sy'n adrodd am ymddygiad sy'n bwlio neu'n aflonyddu yn cael gwybod am bolisi'r coleg a chânt eu cefnogi i wneud cwyn ffurfiol. Mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig gyda Dysgu yn y Gwaith, bydd y Coleg yn cysylltu â'r cyflogwr lle bo'n briodol er mwyn iddynt weithredu eu gweithdrefnau Adnoddau Dynol. Byddwn yn cyfeirio at y Cod Ymddygiad Myfyrwyr y coleg, a phetai hynny'n briodol, Polisi TG y Myfyrwyr.

## Risg

Bydd Coleg Cambria yn gwneud popeth rhesymol i alluogi pob un i barhau ar ei gwrs astudio. Bydd gweithrediadau nad ydynt yn disgyblu ffurfiol, fel cwnsela i un parti neu'r ddau ohonynt, neu gymodi, yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

## Cyfrifoldebau

Bydd pob cwyn am fwlio ac aflonyddu'n cael eu trin yn ddifrifol ac yn sensitif. Caiff gweithrediadau posibl a dymunol eu trafod gyda'r dioddefwr honedig yn y lle cyntaf ond cynhelir ymchwiliad bob amser pan fydd y dioddefwr honedig yn iau na 18 oed neu yn oedolyn bregus.

Mae'n rhaid i'r aelod o staff y dywedir wrtho am y digwyddiad, neu'r un sy'n canfod y digwyddiad yn gyntaf sicrhau bod y sefyllfa yn ddiogel o ran y dioddefwr a'r bwli/aflonyddwr honedig. Os oes angen, dylid cael cefnogaeth a chyngor gan y Swyddog Diogelu neu aelod o'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr. Os yw'r dioddefwr honedig yn fyfyriwr Dysgu yn y Gwaith, dylai ddweud wrth ei Asesydd neu rywun arall yn y Coleg.

Hefyd, mae'n rhaid i'r aelod o staff adrodd am yr honiadau mewn dwy ffordd:

1. Cyflwyno adroddiad i Swyddog Diogelu'r Coleg trwy'r 'Botwm Diogelu' ar y fewnrwyd.
2. Gwneud adroddiad ysgrifenedig am y digwyddiad y mae'n rhaid ei roi i'r Dirprwy Gyfarwyddwr neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol priodol cyn gynted â phosibl ac yn bendant o fewn 24 awr i'r honiad cychwynnol.

Gall unigolion hefyd gyflwyno cais am gymorth i ddatrys bwlio trwy adrodd am honiadau trwy'r 'Botwm Diogelu' ar y fewnrwyd.

Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn sicrhau bod 'canfod ffeithiau' cychwynnol yn digwydd i sicrhau pa weithrediadau sydd eu hangen, os oes angen unrhyw beth o gwbl, ac a ellir delio â'r sefyllfa yn anffurfiol. Os tybir ei fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad ffurfiol, cynhelir hyn yn brydlon gan ddefnyddio'r Weithdrefn Ddisgyblu lle bo hynny'n briodol. P'un ai yn anffurfiol neu'n ffurfiol, bydd y bwli honedig a'r dioddefwr honedig yn cael eu cyfweld ar wahân. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod angen gwahardd y ddau o'r Coleg tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol hefyd yn cysylltu â Swyddog Diogelu'r Coleg i sicrhau bod pob gweithrediad a wneir yn gyson ac er lles y bwli neu'r aflonyddwr honedig a'r dioddefwr honedig fel ei gilydd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl.

Pan fydd y mater yn cael ei ystyried yn aflonyddu, bydd y Swyddog Diogelu'n trafod gyda Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg i sicrhau bod cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol yn cael eu cadw.

Bydd gweithredu priodol yn dilyn yr ymchwiliad. Gall hyn olygu cymorth a chwnsela i un myfyriwr neu'r ddau ohonynt a/neu broses cymodi. Fel rheol, bydd cymodi yn cael ei oruchwylio gan Gwnselydd y Coleg. Mewn rhai achosion, bydd angen achos disgyblu.

## Cyfathrebu a Dwyieithrwydd

Lle bydd y dioddefwr neu'r bwli/aflonyddwr honedig yn dymuno cwyno neu gynnal trafodaethau ymchwilio yn y Gymraeg, bydd yn cael cymorth priodol i wneud hynny. Bydd pob proses ysgrifenedig, p'un ai ar bapur neu ar-lein, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Lle bydd cymodi yn cael ei ddefnyddio, caiff ei gynnal yn ddwyieithog os oes angen. Darperir Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) lle bo hynny'n briodol.

Bydd Swyddog Diogelu'r Coleg yn casglu pob adroddiad ac yn cyflwyno ystadegau a chynlluniau gweithredu i gyfarfodydd Grŵp Diogelu'r Coleg.

## Cynllun Gweithredu

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon eisoes ar waith. Darperir hyfforddiant i'r holl staff a'r myfyrwyr fel rhan o'u sefydlu.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Safonau

Bydd Swyddog Diogelu'r Coleg yn casglu'r holl adroddiadau ac yn cyflwyno ystadegau a chynlluniau gweithredu i gyfarfodydd Grŵp Diogelu'r Coleg. Nid yw'n ddichonadwy i osod targedau perfformiad, ond disgwylir i dueddiadau fod ar i lawr a phennir gweithredu brys gan y Grŵp Diogelu os na fydd hyn yn digwydd.

Bydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn casglu’r holl adroddiadau a’r ystadegau ar gyfer Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg a fydd yn argymell gweithredu priodol mewn ymateb i hynny.

## Cyfeiriadau

Gweithdrefn Disgyblu Dysgwyr
Cod Ymddygiad Myfyrwyr
Polisi TG